Briff Gwnaethpwyd yng Nghymru ar gyfer Ymgynghoriaeth Allanol

Cyflwyniad

Drwy ein llinyn 'Gwnaethpwyd yng Nghymru', mae Canolfan Ffilm Cymru yn dathlu straeon Cymreig ar y sgrin. Ein huchelgais ydy i ffilmiau Cymreig sefyll yn rheolaidd ochr yn ochr gyda theitlau ieithoedd tramor ac annibynnol o ansawdd uchel ledled y byd.

Y Briff

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn chwilio am ymgynghorwyr allanol i ymchwilio ac i ddatblygu'r syniad o frand Gwnaethpwyd yng Nghymru, ar gyfer filmiau gyda chysylltiadau Cymreig.

Gan adeiladu ar waith Canolfan Ffilm Cymru hyd yn hyn, a gyda chefnogaeth dros 25 o bartneriaid diwydiant (yn cynnwys BAFTA Cymru, Into Film a Ffilm Cymru Wales), ein nod ydy edrych ar sut y gallwn gynyddu ymwybyddiaeth o gynnwys sgrin Cymreig a chyflwyno'r neges yma i'r genhedlaeth ddigidol.

Gall y gwaith cwmpasu yma, a gefnogir gan Clwstwr Creadigol trwy Prifysgol Caerdydd, gynnwys:

1) Dysgu oddi wrth fodelau darparu DU a rhyngwladol eraill,
2) Edrych ar y syniad o hunaniaeth Cymreig, sut rydym yn dweud straeon a sut y gellid harneisio hyn i gyrraedd cynulleidfaoedd,
3) Edrych ar y bylchau mewn data, tueddiadau ac astudiaethau achos i weld sut y gallwn ddefnyddio data i gyrraedd cynulleidfaoedd.

Rydym yn rhagweld y bydd eich cynnig yn cynnwys:

- Cyfarfod/trafodaeth ffôn cychwynnol gyda thîm y Ganolfan a phartneriaid i fapio angen,
- Cydgysylltu gyda phartneriaid,
- Ymchwilio a dadansoddi data,
- Casglu a chyflwyno adroddiad byr gydag astudiaethau achos allweddol.

Amserlen

- Hydref - comisiwn,
- Tachwedd– penodi/gwaith yn cychwyn
- April 2020- cwblhau.

Cyllideb

Y cyfanswm ar gyfer y gwaith yma, yn cynnwys TAW, ydy £ **£10,000.** Darparwch amlinelliad clir o'r dadansoddiad o gostau, gan roi manylion yn erbyn gweithgaredd.

Meini prawf y corff

Gall unigolyn, corff neu dîm gyflawni'r gwaith yma. Gall unigolion neu gyrff gydweithio i gyfuno sgiliau. Lle caiff gwaith ei wneud gan grŵp, rhaid cael arweinydd penodedig clir. Dylai'r ymgynghorydd(wyr) sydd yn darparu dyfynbris am y briff allu dangos:

Hanfodol:

- Profiad profedig o ymchwil arloesol, sgiliau gwerthuso, dadansoddi a dylunio data,
- Y gallu i gyflwyno persbectif annibynnol i ddatblygiad y briff yma,
- Sgiliau ymgynghori cryf,
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog,
- Gwaith datblygu partneriaeth llwyddiannus profedig,
- Gwerth am arian,
- Dealltwriaeth o gyfleoedd cyfartal a chynhwysiant,
- Gwybodaeth dechnegol o gymwysiadau i gefnogi'r broses ymgynghori.

Dymunol

- Trwydded yrru lawn (mae teithio yn annhebygol ond gall fod angen gwneud hynny),
- Dealltwriaeth o ymwybyddiaeth brand ac ymgyrchoedd marchnata,
- Gwybodaeth weithredol o ffilm a chynulleidfaoedd,
- Dealltwriaeth o'r diwydiant/diwylliant sgrin Cymreig,
- Siaradwr/wraig Cymraeg.

Sut i wneud cais

Cyflwynwch gynnig ysgrifenedig cryno sydd yn cynnwys:

- Eich dull o ymateb i'r briff,
- Manylion am yr unigolyn(ion) fydd yn gweithio ar y prosiect,
- Amlinelliad o brofiad blaenorol yn y maes yma o waith ac enghraifft o'r gwaith yma,
- Dau eirda o waith blaenorol/tebyg,
- Cyllideb, yn cynnwys TAW a chostau.

Dylid anfon cynigion ar e-bost at:

Hana Lewis
hana@filmhubwales.org
Nodwch y llinell pwnc yn yr e-bost 'Ymgynghoriaeth Gwnaethpwyd yng Nghymru''

Y dyddiad cau ar gyfer cynigion ydy Dydd Gwener 15fed Tachwedd. Gall cyrff dderbyn gwahoddiad i drafod yn bersonol.

Dyld cyfeirio ymholiadau at hana@filmhubwales.org neu 02920 353740.

ATODIAD

Amdanom FHW

Rhagor o bobl, rhagor o leoedd, rhagor o ffilmiau
Mae Canolfan Ffilm Cymru (FHW) yn rhan o rwydwaith DU gyfan a gyllidir gan y Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) i ffurfio Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN), ac mae Chapter wedi'i benodi fel y Corff Arwain Canolfan Ffilm (FHLO) yn Nghymru. Rydym yn gweithio gyda dros **300 o sinemau**, canolfannau celf, lleoliadau cymunedol, cymdeithasau, gwyliau ac ymarferwyr ffilm ehangach yng Nghymru i ddatblygu dulliau dyfeisgar a chynhwysol i bobl ar draws Cymru gael mynediad i sinema annibynnol Prydeinig a rhyngwladol, waeth beth fo'r rhwystrau y gallant eu wynebu. Rydym wedi bod yn falch o ddatblygu prosiectau fel **Roald**

Dahl ar Ffilm, Rhwydwaith Ffilm Hoyw DU, a chynnal Swyddog Mynediad FAN BFI.

Rydym hefyd yn falch o arwain strategaeth Sinema Cynhwysol FAN BFI ar ran y DU, gan weithio i ddatbygu cydraddoldeb a chynrychiolaeth ar sgrin, yn y gynulleidfa a thu ôl i'r camera.

Am wybodaeth ynghylch rhywfaint o'n gwaith hyd yn hyn, ewch i **Uchafwbyntiau Canolfan Ffilm Cymru**.

Am Gwnaethpwyd yng Nghymru

Yn 2014, lansiodd Canolfan Ffilm Cymru Strategaeth Gwnaethpwyd yng Ngymru gyda'r bwriad o ddathlu hunaniaeth Cymru, ei hiaith a'i diwylliant drwy ffilm, drwy gydol y flwyddyn. Roedd hwn yn ddull newydd o weithredu i warantu'r risg i arddangoswyr, oedd angen amser i ymgysylltu gyda'r gynulleidfa a chefnogi gwneuthurwyr ffilm gyda theithiau theatrig yng Nghymru. Bedair mlynedd ymhellach mae nifer o safleoedd yn cynnig ffilmiau Cymreig yn hyderus fel rhan o'u rhaglenni craidd ond mae nifer o broblemau strategol allweddol wedi ein dal yn ôl, yn cynnwys:

- Diffyg data yn amlinellu perfformiad teitlau Cymreig a phatrymau cynulleidfa yng Nghymru,
- Diffyg gwybodaeth am gynnwys gyda chysylltiadau Cymreig, ffilmiau newydd cyfyngedig neu amser arwain i mewn byr,
- Roedd partneriaid y diwydiant Cymreig yn gweithio ar eu pen eu hunain ac heb ofod canolog na brand allai godi proffil cynnwys sgrin Cymreig o ffilm, i deledu pen uchaf neu animeiddio.

Er mwyn archwilio'r materion yma ymhellach a datblygu strategaeth ar gyfer pedair mlynedd nesaf Canolfan Ffilm Cymru, fe wnaethom gynnal adolygiad o ffilmiau Cymreig yn 2017 gyda Bigger Picture Research a'n partneriaid mewn arddangos, cynhyrchu a dosbarthu. Wrth edrych ar y data ar draws y 70 o ffilmiau roeddem wedi eu cefnogi ar y cyfnod yma, fe wnaethom gadarnhau na fyddai 24 ohonyn nhw wedi cael eu rhyddhau i theatrau oni bai am y cynllun.

Beth ydy Ffilmiau Cymreig?

Mae FHW yn cefnogi cyrff sydd yn dangos ymrwymiad gydol y flwyddyn i ffilmiau annibynnol, yn cynnwys ffilmiau Cymreig, y gellir eu rhannu i'r penawdau canlynol:

1. **Treftadaeth Sgrin:** Ffilmiau nodwedd proffesiynol, ffilmiau byr a dogfen y mae eu hawliau'n cael eu dal gan archifau sgrin e.e. The Life and Times of David Lloyd George (1918) neu ffilmiau amatur mewn casgliadau personol.

2. **Ffilmiau Nodwedd a Ffilmau Dogfen:**

    a) Yn cynnwys talent Cymreig (cyfarwyddwr/ cynhyrchydd/ awdur/ prif gast) e.e. ffilmiau'r actor Ray Milland.
    b) Wedi'u gwneud gan gwmnïau cynhyrchu neu wneuthurwyr ffilmiau'n weithredol yng
    c) Nghymru (yn cynnwys y rhai a wnaethpwyd gyda chyllid Asiantaeth neu Lywodraeth Cymru) e.e. Orion: The Man Who Would be King (2015).

d) Wedi'u gosod yng Nghymru, neu sy'n delio gyda straeon, digwyddiadau neu bobl Cymru e.e. Tiger Bay (1959). Ffilmiau Cymraeg e.e. Yr Ymadawiad (2016).

e) Wedi'u gosod yng Nghymru neu yn delio gyda chymeriadau, digwyddiadau neu sefyllfaoedd yng Nghymru (gwir neu ddychmygol). e.e. Pride (2014). Caiff ffilmiau fel y rhain ac eraill eu hadolygu fesul cais.[1]

3). Beth rydym yn ei wneud yng Nghanolfan Ffilm Cymru i gefnogi ffilmiau Cymreig

1. We offer financial support to exhibitors programming films with Welsh connections,
2. Rydym yn cynnig ystafell rhagddangos i aelodau Canolfan lle mae modd iddyn nhw wylio sginwyr ffilmiau Cymreig ar-lein.
3. Rydym yn anfon newyddlenni rheolaidd yn cynnwys diweddariadau ar ffilmiau newydd.
4. Rydym yn siarad yn rheolaidd gyda dosbarthwyr, gwneuthurwyr ffilm ac asiantaethau fel Ffilm Cymru Wales a Sgrin Cymru am ffilmiau newydd i ddod a throsglwyddo newyddion trwy'r rhwydwaith.
5. Rydym yn cynnal rhwydwaith DU rhaglenwyr ifanc gyda 4 lleoliad yng Nghymru a llawer mwy ledled y DU. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i gynulledifaoedd ifanc roi adborth ar ffilmiau Cymreig.
6. Rydym yn cynnig adran Gwnaethpwyd yng Nghymru ar ein gwefan lle mae catalog o ffilmiau Cymreig wedi'u rhestru, yn cynnwys pecynnau wedi'u curadu'n ganolog fel Santes Dwynwen, Ray Milland a Stanley Baker.
7. Fe fyddwn yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd rhwng y cyrff ffilm ehangach yng Nghymru, o hyfforddiant i gynhyrchu, i ddatblygu dulliau gweithredu canolog i farchnata ffilmiau Cymreig sydd yn rhoi hwb i broffil ffilmiau newydd ac yn cynnig gweithgaredd gwerth ychwanegol.
8. Fe fyddwn yn creu pecynnau ffilm wedi eu curadu lle mae yna alw thematig.
9. Hyrwyddo ffilmiau Cymreig yn genedlaethol a rhanbarthol, lle y bydd gan y gweithgaredd yma botensial i greu cynulleidfoaed ychwanegol.

[1] Mae enghreifftiau yn cynnwys: ffilmiau ieithoedd tramor gydag is-deitlau, ffilmiau dogfen, ffilmiau clasurol neu archif, ffilmiau sy'n anodd eu rhoi o dan bennawd, ffilmiau sy'n adrodd stori mewn dull anghonfensiynol, heriol, ffilmiau sydd yn arbrofol gyda thechnegau sinematig neu ffilmiau sy'n gwneud i chi feddwl nad ydyn nhw ar gyfer adloniant yn unig. BFI catalog ffilm chwiliadwy: collections-search.bfi.org.uk/web